# Yn pryderu am symptomau canser yr ofari?
**Welsh version**

Stumog wedi ymchwyddo?
Teimlo'n llawn drwy'r amser?
Poen yn y stumog?
Angen piso mwy?

## Beth yw symptomau canser yr ofari?

- **Chwydd parhaus yn yr abdomen**
- **Teimlo'n llawn yn gyflym a/neu golli chwant am fwyd**
- **Poen pelfig neu yn yr abdomen (eich stumog ac islaw iddi yw hynny)**
- **Symptomau troethol (bod angen piso ar fwy o frys neu'n amlach nag arfer)**

**Weithiau gall symptomau eraill fodoli:**
- Newidiadau mewn arferion gweithio'r corff (ee dolur rhydd neu rwymedd)
- Gorflinder eithafol (teimlo'n hynod flinedig)
- Colli pwysau'n ddiesboniad

Dylai unrhyw waedu wedi'r cyfnewid gael ei archwilio gan Feddyg Teulu bob amser.

### Mae symptomau canser yr ofari'n:
- **fynych** – fel rheol maen nhw'n digwydd mwy na 12 waith y mis
- **parhaus** – nid ydyn nhw'n mynd i ffwrdd
- **newydd** - nid ydyn nhw'n normal i chi a gallan nhw fod wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

## Ydych chi'n pryderu am eich symptomau?

Os ydych chi'n profi un neu fwy o'r symptomau hyn yn rheolaidd, nad ydyn nhw'n normal i chi, mae'n bwysig eich bod yn gweld eich meddyg. Mae'n annhebygol yr achosir eich symptomau gan broblem ddifrifol, ond mae'n bwysig i rywun yn eu gwirio.

### Paratowch am eich apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu
- Dilynwch drywydd eich symptomau gan ddefnyddio ein Dyddiadur Symptomau canser yr ofari rhad ac am ddim (ar gael ar bapur neu fel app): **targetovariancancer.org.uk/symptomsdiary**
- Dysgwch am eich hanes teuluol. Dywedwch wrth eich Meddyg Teulu os yw dwy berthynas neu fwy yn eich teulu agos wedi cael canser yr ofari neu'r fron

### Pa brofion allai eich Meddyg Teulu eu cynnal?

- Os yw'ch symptomau'n fynych ac yn barhaus dylai eich Meddyg Teulu drefnu prawf gwaed CA125
- Efallai y bydd hefyd yn trefnu sganiau uwchsain o'ch stumog a'ch ofarïau

### Beth nesaf?

- Gofynnwch i'ch Meddyg Teulu beth yw'r camau nesaf
- Byddwch yn daer! Ewch nôl at y Meddyg Teulu neu ymofynnwch am ail farn o fewn ychydig o wythnosau os nad yw'ch symptomau'n mynd i ffwrdd

## Ble allwch chi ddysgu mwy?

**Target Ovarian Cancer**

**2 Angel Gate, Llundain EC1V 2PT**

**020 7923 5475**

**info@targetovariancancer.org.uk**

**targetovariancancer.org.uk**

**facebook.com/TargetOvarianCancer**

**@TargetOvarian**

*Mae'r wybodaeth hon wedi'i chymeradwyo gan y cynllun Safonau Gwybodaeth i sicrhau ei bod yn rhoi gwybodaeth sy'n gywir ac o ansawdd uchel.*

Health & care information you can trust
The Information Standard Certified Member

*Adolygwyd diwethaf: Mehefin 2017*
*Adolygiad nesaf: Mai 2020*

©Target Ovarian Cancer 2017

Cwmni cyfyngedig drwy warant yw Target Ovarian Cancer, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif 6619981). Swyddfa gofrestredig: 2 Angel Gate, Llundain EC1V 2PT.
Rhifau elusen gofrestredig 1125038 (Cymru a Lloegr) ac SC042920 (Yr Alban).